Adroddiad i'r: Cyngor Sir

Dyddiad y cyfarfod: 18 Mai 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

Awdur yr Adroddiad: Gary Williams, Swyddog Monitro

Teitl Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu adroddiad i'r Cyngor Sir ar waith y Pwyllgor Safonau. Yn sgil atal cyfarfodydd dros dro yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, bydd yr adroddiad yn cynnwys y cyfnod o'r adroddiad blynyddol diwethaf a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2019 hyd at ddiwedd blwyddyn cyfredol y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau ychydig flynyddoedd yn ôl, y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Bydd hyn yn dod yn ofyniad statudol ar ddechrau darpariaethau perthnasol y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

4.2. Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro cydymffurfiad â'r Cod Ymddygiad Aelodau. Roedd yr holl Aelodau'n ymwybodol bod eu Cod yn seiliedig ar egwyddorion y dylai'r Aelodau ymddwyn yn unol â nhw yn seiliedig ar 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan. Yng Nghymru mae deg egwyddor sydd wedi'u nodi yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

4.3. Mae’r Pwyllgor Safonau yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau - 2 Gynghorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned (nad yw'n Aelod sy’n gwisgo dwy het). Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio gan aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Hefyd dim ond pan fydd o leiaf hanner yr Aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau annibynnol y gall y Pwyllgor wneud cworwm.

4.4. Caiff aelodau annibynnol eu recriwtio trwy hysbyseb gyhoeddus, sydd ar agor i bawb heblaw am feini prawf llym mewn perthynas â bod yn gyn-Swyddog neu’n gyn-Aelod o’r Cyngor o fewn cyfnodau penodol o amser, bod ag enw da a bod â rhinweddau penodol fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Fel arall, mae’r cyfle ar agor i unigolion o bob cefndir, er mwyn cynrychioli barn y cyhoedd o ran y safonau maent yn ei ddisgwyl gan aelodau etholedig. Yr aelodau annibynnol cyfredol yw Ian Trigger, Julia Hughes, Anne Mellor a Peter Lamb.

4.5. Gall aelodau annibynnol y Pwyllgor wasanaethu hyd at ddau dymor yn y swydd. Bydd ail dymor swydd Ian Trigger yn dod i ben ar ddyddiad yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Bydd tymor cyntaf Peter Lamb yn y swydd yn dod i ben ar yr un dyddiad. Daw tymor cyntaf Julia Hughes ac Anne Mellor i ben ym mis Mai 2021 ac mae eu penodiad i ail dymor yn y swydd yn destun adroddiad ar wahân.

4.6. Yn ystod y cyfnod a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, cyfarfu’r Pwyllgor ar 6 achlysur. Mae nifer o eitemau sefydlog a dderbyniodd y Cyngor:

(a) Presenoldeb mewn Cyfarfodydd

Adroddiadau gan Aelodau’r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'u presenoldeb a'u harsylwadau yng nghyfarfodydd Pwyllgor a’r Cyngor boed ar lefel Sir neu’r Gymuned. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych ymagwedd ragweithiol tuag at godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad. Mae Aelodau’r Pwyllgor yn mynychu i arsylwi ymddygiad ac effeithiolrwydd cyffredinol y cyfarfodydd; yna byddent yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor, sydd yna’n gwneud argymhellion o ran unrhyw anghenion hyfforddi neu batrymau ymddygiad. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i'w gwneud yn glir bod eu hymagwedd o ran mynychu yn bersonol mewn cyfarfodydd o safbwynt cefnogaeth ac addysgol; er mwyn targedu adnoddau i wella safonau a hyder y cyhoedd yn y

gwaith hollbwysig sy'n cael ei wneud ar lefel gymunedol, ar sail wirfoddol; ac nid o unrhyw ongl gorfodaeth neu gritigol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwerth mae cynghorau a'u haelodau o'r fath yn ychwanegu at gymunedau lleol.

(b) Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon). Cyflwynir yr adroddiad mewn sesiwn gaeedig a darperir aelodau gyda nifer cyfyngedig o fanylion o ran cwynion parhaus yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael eu gwrthod gan yr Ombwdsmon ar gyfer ymchwiliad. Darperir digon o fanylion i alluogi aelodau i ystyried a oes angen argymell hyfforddiant neu gamau eraill i gynghorau tref, dinas neu gymuned penodol, sy'n profi problemau neu gynnydd mewn cwynion. Mae mwyafrif y cwynion yn ymwneud â chwynion yn erbyn aelodau o Gynghorau Cymuned, Dinas a Thref ac yn aml wedi'u codi gan aelodau eraill o'r un cyngor. Nid yw mwyafrif y cwynion hyn wedi cael eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon sy'n defnyddio prawf dau gam, yn gyntaf os oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr unigolyn wedi torri'r Cod, ac yn ail, os yw er budd y cyhoedd i'w swyddfa ymroi adnoddau ar gyfer ymchwiliad.

(c) Llyfr Achos Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn cynhyrchu crynodeb chwarterol o'r cwynion sydd wedi cael eu hystyried gan ei swyddfa, yn nodi pa gamau sydd wedi cael eu cymryd mewn perthynas â'r cwynion, a lle bo'n berthnasol, y gosb a osodwyd. Gall unrhyw aelod sydd â diddordeb yng nghynnwys y llyfr achos gael mynediad ato trwy wefan yr Ombwdsmon.

4.6 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried nifer o faterion eraill yn ystod y cyfnod hwn. Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad i ystyried cwyn o dorri Cod Ymddygiad gan aelod o Gyngor Tref a gafodd ei atgyfeirio i'r Pwyllgor gan yr Ombwdsmon. Yn dilyn gwrandawiad dau ddiwrnod, daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ac fel osodwyd gwaharddiad o bedwar mis ar yr aelod hwnnw.

4.7 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ymgyrch CLlL o ran moesgarwch mewn bywyd cyhoeddus ac yn benodol o ran sut mae'n ymwneud â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cais i waith pellach gael ei gyflawni gan swyddogion i baratoi canllawiau i aelodau etholedig ar y broblem o fygythiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati, gan adeiladu ar y deunyddiau i'w datblygu gan y CLlL.

4.8 Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig drafft ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig sydd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r canllawiau diwygiedig yn cynnwys ychydig mwy o eglurder a mwy o esiamplau i helpu aelodau i ddeall y rhwymedigaethau a osodir arnynt gan y Cod Ymddygiad. Nid yw'r canllawiau diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi eto, ond bydd o gymorth i ddarparu hyfforddiant i gynghorwyr newydd eu hethol yn 2022.

4.9 Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gorff sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'r fforwm fel arfer yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn i drafod testunau sydd o ddiddordeb cydfuddiannol. Nid oes cyfarfod o'r fforwm wedi ei gynnal yn ystod y pandemig ond gobeithir y bydd yn dechrau cyfarfod eto ar-lein.

4.10 Yn y flwyddyn i ddod bydd y Pwyllgor yn ystyried gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau ac i gydweithredu gyda'r Pwyllgor wrth gyflawni ei swyddogaethau. Bydd angen i'r Pwyllgor gwrdd ag arweinwyr y grwpiau i drafod sut allent hwy a'r Pwyllgor gydweithio er mwyn cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. Bydd angen i gylch gorchwyl y Pwyllgor gael ei addasu er mwyn adlewyrchu'r rhwymedigaethau newydd hyn.

4.11 Bydd y Pwyllgor hefyd yn chwarae rôl bwysig i oruchwylio'r paratoadau ar gyfer deunyddiau hyfforddi ar gyfer y Cyngor newydd yn dilyn etholiad llywodraeth leol a gynhelir ym Mai 2022, mewn perthynas â'r fframwaith moesegol yn gyffredinol a'r Cod Ymddygiad yn benodol.

4.11 Bydd y Pwyllgor hefyd yn hyrwyddo'r broses lle gall aelodau etholedig wneud cais am ollyngiadau a fyddai'n eu galluogi mewn amgylchiadau penodol a nodir mewn cyfraith, i siarad mewn cyfarfodydd ar faterion lle ystyrir fod ganddynt gysylltiad fel arfer. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn cynghorau tref, dinas a chymuned, lle mae aelodau'r cyngor fel arfer yn aelodau o grwpiau a chymdeithasau eraill yn eu cymunedau hefyd. Byddai'r Pwyllgor yn ymddangos eu bod yn derbyn llai o geisiadau ym ollyngiadau na nifer o bwyllgorau awdurdodau eraill.

4.12 Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu gwersi o'r arferion da o Bwyllgorau Safonau awdurdodau eraill. Felly bydd yn Pwyllgor yn codi ei broffil o fewn y Cyngor yn y flwyddyn i ddod. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gwrdd â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr newydd. Bydd aelodau annibynnol sydd eisoes yn arsylwi cyfarfodydd cyngor cymuned a thref, yn arsylwi rhai o gyfarfodydd y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes gan yr adroddiad effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, fodd bynnag, mae'r fframwaith moesegol a'r rôl mae'r Pwyllgor yn ei chwarae yn rhan hanfodol o gynnal hyder y cyhoedd yn uniondeb llywodraeth leol a'r rhai sy'n gwasanaethau o'i fewn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid chafwyd unrhyw ymgynghoriad gyda Chraffu nag unrhyw un arall cyn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae gan y Pwyllgor y pŵer i wneud yr adroddiad o dan delerau Cyfansoddiad y Cyngor.